

Cynghrair 'Silver Star' Gwynedd

Abermaw 4 v Nefyn 4

'Chwyth arafwyntfâl y mynnot, Cryn fy ffenestr a'm ddr.'

meddai Eifion Wyn, a phan mae o'n dod o'r dwyrain ac eira hefo fo dydi'r 'Bermo ddim yn lle i fagu gwaed, coeliwch fi.

Oherwydd clwy'r Traed a'r Genau mae cae pêl-droed Abermaw yn un o'r ychydig lefydd sy'n 'ddiogel' i chwarae arno ac fe ddechreuodd Nefyn ar ddi, gan fynd ar y blaen gydagol dda gan Jason Jones ar ôl 8 munud, a phan ddyblodd Alan Jones y sgôr ar ôl chwarter awr roedd pethau'n edrych yn addawol. Fodd bynnag cafwyd goliau gan Steven Evans a Craig Papernick cyn hanner amser a unionodd bethau. Sgoriodd Iwan Gwyn ar ôl deng munud o'r ail hanner ond, ddau funud yn ddiweddarach, dyfarnwyd sic o'r smotyn i'r tîm cartra a sgoriodd Papernick ei ail gol i lefelu'r sgôr unwaith eto.

Gyda chwarter awr yn weddill rhoddodd Iwan Gwyn, Nefyn ar y blaen unwaith eto ac edrychai'r tri phwynt yn ddiogel— yn enwedig pan anfonwyd un o chwaraewyr y 'Bermo' o'r cae am dacl echrudus ar Brian Mathews.

Cynddeiriogwyd Sion Williams i'r fath raddau fel yr aeth i'r afael a'r troseddwr (a phan mae Sion 'Billy' yn colli ei limpyn byddai unrhyw un yn falch o weld y cerdyn coch er mwyn cael dianc i ddiogelwch y stafell newid!) Dyna'n union ddigwyddodd, ond gyda dim ond deg dyn llwyddodd Carl Ryan i ddod a'r 'Bermo' yn gyfartal unwaith eto. Rhannu'r pwyntiau fu raid, a oedd yn eitha teg, a dihangodd pawb am ei fywyd allan o'r oerni.

Enillwyr Clwb 200 Nefyn am fis Mawrth oedd:

Eirlys Griffith, Bryn Haul, Dinas a Peter Jones, Siop y Golf, Pwllheli.

Clwb Rygbi Pwllheli

Diwedd siomedig a gafwyd i'r tymor eleni. Oherwydd clwy'r Traed a'r Genau penderfynodd Undeb Rygbi Cymru ddod a thymor rygbi 2000/2001 yn adran y gogledd i ben. Roedd hyd at 6 o'r 12 tîm sydd yn y Cynghrair mewn ardaloedd heintus ac lolly bu'n amhosibl cwblhau'r rhaglen. Er fod Pwllheli ar y brig, diystyriwyd y tymor yn gyfangwbl ac ni fydd pencampwyr eleni.

Drwy'r niwl o siom roedd rhaid i'r hogiau gofio mai pleser oriau hamdden yw rygbi. Mae bywoliaeth llawer o bobl yn cael ei beryglu gan y chwyf a'u bod hwy mewn sâl llawer gwaeth.

Mae'n rhaid diolch i Elton Paneta a Carl Sitine eto eleni am eu gwaith caled. Mae sawl uchafbwynt i'r tymor gan gynnwys buddugoliaeth gyntaf yn Rhuthun a chwarae penigamp am 60 munud o leiaf oddi cartref cyn y Nadolig yn Noligellau.

Fe ddylai pawb fod yn eithriadol o heini erbyn dechrau'r tymor nesaf wedi cael misoedd maith o ymarfer dros yr haf estynedig hwn!



(O'r chwith i'r dde) Lois Williams, Seran Hughes, Sarah Thompson a Sian Jones, Pedair o ferched ifanc Pwllheli a gymerodd ran yn y nofio nodedig yn y Ganolfan Hamdden. Codwyd £300 tuag at Ymchwil Cancr.

Cystadleuaeth Bowlio Mat Byr Dwyfor

Rownd Derfynol Cwpan Her y Cynghrair Y Ffôr (A) 1 v Rhiw (B) 4

Chwalwyd gobeithion y Ffôr o ennill Cwpan y Cynghrair pan gawsant eu trechu gan y Rhiw yn y rownd derfynol a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Nefyn. Rhiw oedd deiliaid y Cwpan ac roeddynt yn benderfynol o ddal eu gafael yn y tîm am flwyddyn arall.

Cawsant ddechreuad da pan enillodd Kim Falk (Rhiw) ei gem yn erbyn Maira Williams, ac yna dyblodd Noel Jones y fantais pan drechodd Sidney Jones.

Cafwyd gem hynod gystadleuol yn y parau gyda Betty Jones / Megan Jones (Rhiw) yn erbyn Maira Williams / Mair Jones. Bu'r ddau dim yn arwain yn eu tro a chyda 3 phen yn weddill roeddent yn gyfartal— ond llwyddodd Betty a Megan i gael y blaen tros y 2 ben olaf actlly rhoi'r Rhiw 3-0 ar y blaen.

Yn y bedwaredd gem eto cafwyd cystadleuaeth agos iawn rhwng Ann Parry (Ffôr) ac Edward Jones gyda'r canlyniad yn ymlatol hyd at y 2 ben olaf, ond Edward gafodd y blaen, 13-6.

Cipiodd Helen Jones (Ffôr) y gem olaf yn erbyn Griff Jones o 14-6 gan wneud y canlyniad yn Ffôr 1 - Rhiw 4.

Llongyfarchiadau i'r ddau dim am noson o fowlio hynod ddifyr.

Clwb Hwyllo Pwll heli

Mae penwythnos y Pasg yn argoeli'n benwythnos prysur iawn yng Nghlwb Hwyllo Pwllheli. Gan gychwyn gyda'r Cyfarfod Blyneddol am 11.00 fore Sadwrn, 14 Ebrill, yna ras gyntaf y tymor am 13.00 y prynhawn, yn dilyn cwsr i'r gwynt ac o'r gwynt. Gyda'r nos cynhelir Disgo yn ystafell y clwb. Bydd dwy ras arall yn dilyn yr un math o gwsr, ynaill ar y Sul a'r llall ar y Lun, 15/16 Ebrill: y ddwy yn cychwyn am 10.30 y bore. Fwrw'r Sul bydd mordaith i Borthmadog yn cychwyn ar y Sadwrn a dychwelyd ar y Sul.

Erbyn hyn mae'r holl aelodau wedi derbyn copi o Lawlyfr a Rhaglen 2001 y Clwb sy'n rhoi braslun a rhaglen hwyllo gyfansawdd am y saith mis nesaf, yn lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Rhaglen Rasio Lleol y Gwanwyn

21-29 Ebrill: Cyfres Ebrill: 4 ras i bob dosbarth.

5-7 Mai: Cyfres Penwythnos Gwyl Fai: 3 ras ar gyfer dosbarthiadau IRC & PYS. Rigeta Sportsboat 8 ras i'r gwynt ac o'r gwynt.

12-20 Mai: Cyfres y Gwanwyn: 4 ras i bob dosbarth.

26-28 Mai: Cyfres penwythnos Llungwyn: 2 ras i bob dosbarth.


Rhaglen Mordeithio y Gwanwyn

5-6 Mai: Mordaith i Aberystwyth
26-28 Mai: Mordaith i Wiclow gyda Chlwb Hwyllo Madog.

Digwyddiadau Hwyllo eraill yn ystod y Gwanwyn

28-29 Ebrill: Cymdeithas Hwyllo Ieuencid Cymru, Pencampwriaethau Volvo Cymru.

Mae'r Morlywydd Richard Tudor yn edrych ymlaen at dymor prysur iawn yn y clwb gan ddod i uchafbwynt gyda'r Gystadleuaeth Cwpan Un Tunnell Rhyngwladol ym Medi.



Alwyn Thomas o Tremysfa, Edern a fydd yn chwarae golff dros dim Ieuencid Cymru yr wythnos nesaf mewn tournament yn Iwerddon.

Clwb Chwaraeon

Parl Priodas? / Pen-blwydd? / Noson Lawan?

Gweithgareddau Cymdeithasol?

Mae Clwb Chwaraeon Pwllheli a'r cyfuestrau ar gael

Cysylltwch â'r Clwb ar 613676 neu Rob Elias (01766) 810219